# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Sonia James**

**Dinbych**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Llun, 26 Tachwedd 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Sonia James (Chuckles) wedi'i chofrestru i warchod plant o dŷ ar wahân mawr, ar ystâd dai ger tref Dinbych. Mae'n darparu gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn, o ddydd Llun i ddydd Iau, o 8.00am i 5.00pm. Mae wedi'i chofrestru i ofalu am hyd at ddeg o blant o dan 12 oed ar hyn o bryd. Mae gan y gwarchodwr plant ystafell chwarae benodol a dwy ardal ar wahân yn yr ardd i'r plant gael chwarae.
Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gan ddefnyddio Cymraeg sylfaenol gyda'r plant ond nid yw'n darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant wedi setlo, ac maent yn mwynhau'r lle a'r cyfleoedd i ddatblygu eu chwarae, eu dysgu a'u sgiliau cymdeithasol yn ystod eu hamser gyda'r gwarchodwr plant. Mae'r gwarchodwr plant wedi sefydlu trefn ddyddiol dda ac yn ymwybodol o'r angen i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a chadw'r plant yn ddiogel. Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol iawn ac mae ganddi wybodaeth dda am ddatblygiad plant. Mae'r safle'n lân iawn, ac mae modd defnyddio'r lle yn y tŷ mewn ffordd hyblyg. Ceir mannau awyr agored da, sy'n cynnig gwahanol fathau o arwynebedd sy'n addas ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau chwarae. Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth ragorol o adnoddau, sydd o ansawdd da. Mae'r gwasanaeth wedi'i drefnu'n dda ond mae angen mwy o wybodaeth ar gyfer yr adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal.

### 2. Gwelliannau

Mae'r gwarchodwr plant wedi ailaddurno'r heuldy ac wedi prynu teganau newydd.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom rai argymhellion yn ymwneud â pholisïau, asesiadau risg, cofnodion datblygiad plant a diogelwch tân.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Gall y plant wneud dewisiadau am fod y teganau a'r gweithgareddau yn hawdd cael gafael arnynt. Mae'r plant wedi setlo'n dda iawn ac mae ganddynt gydberthynas dda â'r gwarchodwr plant. Ceir digon o gyfleoedd ar gyfer chwarae a ddechreuir gan y plant neu weithgareddau a drefnwyd, ac mae'r plant yn chwarae yn yr awyr agored yn rheolaidd yn ystod y dydd. Mae'n mynd â'r plant allan yn aml i leoedd yn y gymuned leol er mwyn cynnig gweithgareddau ychwanegol. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r gwarchodwr plant yn gwrando ar y plant a gallant ddewis o blith y teganau sydd ar gael iddynt.

Gwelsom y plant yn gwneud dewisiadau yn ystod y dydd. Dewisodd y plant hŷn dreulio amser y tu mewn yn lliwio, darllen a chwarae â Lego. Rhoddwyd dewisiadau i'r plant iau pan ddaethant i mewn a dewisodd un chwarae â'r Lego tra bod dau blentyn yn chwarae â dwy garej ac amrywiaeth o geir.
Gwelsom gofnod yn y dyddiadur dyddiol a oedd yn nodi bod y gwarchodwr plant wedi siarad â'r plant am yr hyn roeddent eisiau ei wneud yn ystod gwyliau'r haf. Dywedodd y gwarchodwr plant fod y plant wedi gofyn am gael creu siop a siop trin gwallt.

Caiff y plant eu cefnogi i wneud dewisiadau.

### 1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi setlo ac mae arferion dyddiol wedi'u sefydlu er mwyn cynnig gofal cyson.

Dim ond am gyfnod byr yr oedd un plentyn wedi bod yn mynychu, ond roedd wedi setlo'n dda ac yn chwarae'n dda gyda'r plant eraill. Cafodd un plentyn, sydd â rhai anawsterau ynglŷn ag amser bwyd, ei gefnogi gan y gwarchodwr plant i fwyta pryd ac ychydig o ffrwythau. Roedd y plant yn mwynhau cael cyfleodd i ymgysylltu â rhai o'r anifeiliaid. Gwnaethant fwydo'r crwban a'i wylio'n bwyta, a dal y gwningen a rhoi mwythau iddi. Cafodd y plant a oedd wedi cysgu yn ystod y prynhawn eu cofleidio i dawelu eu meddyliau, nes eu bod yn ddigon effro i eisiau chwarae. Mae yna drefn ddyddiol sy'n helpu'r plant i setlo, ond mae'n ddigon hyblyg i newid yn ystod gwyliau'r ysgol ac i addasu i'r tywydd.

Mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus ac yn hamddenol, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu i reoli eu hymddygiad a chymryd eu tro.

Roedd y pum plentyn a oedd yn bresennol o wahanol oedrannau, ond gwnaeth y tri phlentyn ifancaf chwarae yn yr awyr agored am ran gyntaf y bore, gan rannu'r beiciau, y ceir a'r sgwteri a'r dillad chwarae rôl.  Gwelsom ddau blentyn yn chwarae ag garej yr un, gan rannu un bocs o geir heb fod angen i oedolyn ymyrryd. Gwelsom ddau blentyn yn cymryd eu tro fel y person trin gwallt a'r cwsmer wrth ddefnyddio'r offer trin gwallt. Anogwyd y plant i fod yn gwrtais wrth rannu teganau neu wrth dderbyn bwyd a diod, a chawsant lawer o ganmoliaeth am wneud hynny.

Mae'r plant yn dysgu i fynegi eu hemosiynau'n briodol.

**1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?**

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ysgogi eu dysgu a'u chwarae.

Rhoddwyd cyfleoedd da i'r plant chwarae a bod yn egnïol drwy gydol y dydd.  Roedd y dyddiadur dyddiol yn dangos bod y plant yn cael cyfleoedd i wneud gweithgareddau crefft, posau jig-so, chwarae rôl, dŵr a thywod, ac roeddent yn gallu mynd allan i'r ardd. Gwelsom y plant yn chwarae ar amrywiaeth o deganau ag olwynion ar yr ardal balmantog yn yr ardd, ac yn ddiweddarach yn ystod y bore, gyda'r llithrennau a'r teganau siglo ar y glaswellt. Mae'r plant yn mynd allan o fewn y gymuned leol ac ymhellach. Yn ddiweddar, gwnaethant fwynhau mynd ar daith i safle'r RSPB yng Nghonwy i weld yr adar a defnyddio'r ardal chwarae.

Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig.

**1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?**

Caiff annibyniaeth y plant ei hyrwyddo a rhoddir cyfleoedd iddynt ddatblygu sgiliau corfforol, cymdeithasol, creadigol a dychmygus.

Caiff y plant gyfleoedd i ddatblygu sgiliau a chefnogi eu hannibyniaeth.  Gwelsom un plentyn yn cael ei gefnogi a'i annog i ddefnyddio'r "llithren fawr" er mwyn ei annog i ddefnyddio grisiau.  Gwelsom gofnod yn y dyddiadur dyddiol yn nodi bod un plentyn wedi dysgu i glymu ei gareiau esgidiau a jyglo.
Cynigir amrywiaeth dda o gyfleoedd i'r plant i gefnogi eu datblygiad. Gwelsom y plant yn cymryd rhan mewn chwarae corfforol, gan wthio edau drwy riliau cotwm er mwyn datblygu sgiliau chwarae manwl a defnyddio'r siop, y ceir a'r siop trin gwallt er mwyn datblygu eu dychymyg.

Cynigir amrywiaeth dda o gyfleoedd ar gyfer chwarae dan do ac awyr agored i'r plant, sy'n cefnogi eu datblygiad.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae gan y gwarchodwr plant bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n cefnogi ei hymarfer wrth gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n ymwybodol o anghenion y plant yn ei gofal a gall reoli'r ffordd y maent yn rhyngweithio yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu.
Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o gynnydd y plant ond nid yw'n cadw cofnod ysgrifenedig ar gyfer pob plentyn unigol.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae gan y warchodwraig bolisïau i gefnogi ei harferion wrth gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Mae gan y gwarchodwr plant bolisi amddiffyn plant/diogelu, a gwnaeth ddiweddaru ei gwybodaeth am ddiogelu yn 2015. Roedd yn siŵr o'i chyfrifoldebau amddiffyn plant ac yn gwybod â phwy i gysylltu os oedd angen. Mae gan bob plentyn lyfr i gofnodi damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth, ond nid oedd y llyfrau wedi'u defnyddio i gofnodi digwyddiadau, a gwnaethom drafod yr hyn y dylid ei nodi ynddynt. Roedd yr wybodaeth am ddamweiniau a meddyginiaeth wedi'i chofnodi'n briodol.
Defnyddiodd y gwarchodwr plant glytiau sychu i lanhau dwylo yn yr ardd cyn cael byrbryd, ond golchodd y plant eu dwylo cyn cinio a'u sychu gan ddefnyddio tywelion unigol, gan leihau'r risg o groes heintio.
Mae'r plant yn bwyta deiet iachus ac amrywiol, a darperir pryd wedi'i goginio amser cinio. Cofnodir y prydau yn y dyddiadur dyddiol, ac mae'r plant, er enghraifft, yn cael cinio cyw iâr, pastai corbenfras ac ysbigoglys, pasta tiwna wedi'i bobi, a reis yr enfys. Darperir pwdin, ac mae enghreifftiau o hynny'n cynnwys banana a chwstard, iogwrt a ffrwythau a phwdin reis. Cafodd y plant bastai'r bwthyn, pys a moron i ginio, wedi'i ddilyn gan bwdin a ddewiswyd gan y plant, sef jeli a hufen iâ.

Mae gan y gwarchodwr plant y wybodaeth, y profiad a'r cymwysterau i gadw'r plant yn ddiogel, ond gellid gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chofnodi.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio yn unol â'i pholisïau a'i gweithdrefnau er mwyn rheoli ymddygiad a chynnig rhyngweithio cadarnhaol.

Gwelsom lawer o enghreifftiau o ryngweithio cadarnhaol yn ystod y dydd. Arhosodd y gwarchodwr plant yn ddigynnwrf drwy gydol y sesiwn a defnyddiodd ei llais i dawelu meddwl plentyn a oedd wedi cynhyrfu mewn ffordd addfwyn. Gwnaeth y gwarchodwr plant yn siŵr fod y plant yn cadw'n brysur drwy'r dydd, gan gyflwyno detholiad o deganau neu ofyn iddynt pa deganau roeddent eisiau chwarae gyda nhw. Roedd hefyd yn ddefnyddiol bod yna ddigon o deganau, megis dwy garej a dau focs o Lego er mwyn i'r plant allu chwarae ochr yn ochr. Roedd y plant yn cael cryn dipyn o ganmoliaeth am chwarae gyda'i gilydd yn dda ac am gyflawni tasgau.

Mae'r gwarchodwr plant yn hawdd mynd ati ac yn sensitif i anghenion a phrofiadau'r plant unigol.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae gan y gwarchodwr plant gymhwyster gofal plant mae'n ymwybodol o ddatblygiad plant, ond dylai'r wybodaeth hon gael ei chofnodi.

Roedd y gwarchodwr plant yn rheoli anghenion gwahanol y plant yn dda ac yn gwneud yn siŵr bod y gweithgareddau'n addas. Cynigiwyd gweithgareddau gwahanol i'r plant hŷn, megis lliwio a llyfr posau. Roeddent yn edrych ymlaen at weithgaredd a gynlluniwyd, sef paentio jariau mason plastig gan ddefnyddio paent acrylig. Ar ôl cwblhau'r dasg, byddai gan y plant gwpanau unigol a fyddai'n eu hannog i yfed mwy o ddŵr, yn enwedig mewn tywydd poeth.
Roedd y siop a'r siop trin gwallt yr oedd y plant wedi gofyn amdanynt fel rhan o weithgareddau'r haf yn ardal yr heuldy o'r ystafell chwarae. Roedd y plant wedi creu arwyddion ar gyfer y ddwy "siop", ac roedd gweithgareddau a gynlluniwyd yn cynnwys gwneud "losin" i lenwi rhai o'r jariau losin. Gwelsom symudion wedi'u haddurno â physgod, sêr môr a gwymon yn hongian o'r nenfwd, a grewyd fel rhan o weithgaredd yn ymwneud â'r môr. Roedd y plant wedi bod i'r siop anifeiliaid anwes i brynu rhagor o bysgod ar gyfer y tanc pysgod.
Nid yw'r gwarchodwr plant yn cofnodi cynnydd y plant na'r sgiliau maent yn eu datblygu, ac felly ni all ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i ddangos ei bod yn diwallu anghenion unigol. Fodd bynnag, gwnaethom ei chlywed yn rhoi adborth ar lafar i riant am y newidiadau a welwyd mewn un plentyn mewn cysylltiad ag amser bwyd.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y rhieni yn cael gwybod ar lafar am gyflawniadau eu plant a'u datblygiad. Fodd bynnag, dylid cadw nodiadau ysgrifenedig. Mae'r rhieni'n cael gwybod yn rheolaidd am lesiant y plentyn.

## 3. Yr amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r safle yn ddiogel. Mae'n darparu lle glân, mewn cyflwr da i'r plant gael chwarae dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r teganau a'r cyfarpar mewn cyflwr da, ac maent yn cynnig amrywiaeth dda ar gyfer gwahanol grwpiau oedran a gwahanol fathau o chwarae.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd glân sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, lle gall y plant chwarae'n ddiogel.

Mae gan y gwarchodwr plant ddwy ystafell nesaf at ei gilydd, a ddefnyddir yn benodol ar gyfer chwarae pan fydd y plant yn bresennol. Gellir defnyddio'r ddwy ystafell ar wahân, neu fel un ystafell, drwy agor y drysau gwydr. Defnyddir drws cefn y tŷ fel y brif fynedfa. Roedd y drws hwn ar agor er mwyn cael llif aer drwy'r ystafell chwarae ond roedd y gwarchodwr plant yn cadw llygad ar ble roedd pob plentyn pan oeddent yn yr ystafell chwarae. Mae'r ddwy ardal chwarae awyr agored wedi'u hamgáu'n llwyr gan ffens neu wrych coniffer er mwyn i'r plant gael chwarae'n ddiogel.
Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal driliau tân bob mis, a chaiff y dyddiad ei nodi yn y dyddiadur dyddiol. Mae angen cofnodi mwy o wybodaeth er mwyn bodloni'r Safon Ofynnol Genedlaethol. Mae gan y gwarchodwr plant flanced dân a gaiff ei storio mewn cwpwrdd yn ymyl y popty, a byddai'n anodd cael gafael arni a'i defnyddio mewn argyfwng.
Cafodd y cyfarpar nwy eu profi ym mis Gorffennaf 2018. Cwblhawyd asesiadau risg sy'n cofnodi'r risg a'r camau a gymerwyd. Fodd bynnag, ni cheir asesiadau risg ysgrifenedig ar gyfer unrhyw deithiau.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle yn lân ac yn ddiogel.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gwahanol ardaloedd i'r plant gael chwarae a dysgu mewn amgylchedd cyfforddus sydd mewn cyflwr da.

Mae'r gwarchodwr plant wedi darparu lle chwarae penodol sy'n caniatáu ar gyfer gwahanol fathau o chwarae. Mae'r lle yn cynnwys seddi oedolion cyfforddus, a ddefnyddiwyd gan y plant hŷn i ddarllen llyfrau. Mae lle ar gael ar gyfer chwarae rôl, ac mae siop a siop trin gwallt wedi'u creu yn yr ardal hon ar hyn o bryd. Mae digon o le i'r plant chwarae ar y llawr, a cheir bwrdd a chadeiriau ar gyfer gweithgareddau crefft a bwyta. Mae'r plant sydd angen cysgu yn cael eu rhoi ar eu cwiltiau eu hunain ar lawr yr ystafell chwarae, tra bod y plant eraill yn chwarae yn yr heuldy sy'n cysylltu â'r ystafell. Mae toiled drws nesaf i'r ystafell chwarae, sy'n golygu bod y plant yn gallu ei ddefnyddio'n hawdd, gan eu hannog i fod yn annibynnol.
Tu allan, ceir ardal balmantog fawr a ddefnyddir ar gyfer teganau ag olwynion ac ar gyfer chwarae â dŵr a thywod. Yn ogystal, ceir ardal laswelltog wrth ochr a blaen y tŷ, sydd wedi'i hamgáu'n llwyr ac yn cael ei defnyddio ar gyfer gemau peli, llithrennau a theganau siglo.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas. Caiff ei ddefnyddio'n hyblyg ac mae'n creu ymdeimlad da o berthyn a diogelwch.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau i ddiwallu anghenion y plant.

Gwelsom amrywiaeth o deganau o ansawdd da yn yr ystafell chwarae, ac roedd eraill wedi'u storio mewn basgedi ar silff uchel yn yr ystafell chwarae. Caiff teganau eraill eu cadw mewn sied, ac mae'r gwarchodwr plant yn eu tynnu allan yn eu tro er mwyn cynnig rhywfaint o amrywiaeth yn chwarae'r plant. Caiff llyfrau eu harddangos ar stondin er mwyn i'r plant eu gweld a chael gafael arnynt yn hawdd. Yn ogystal â'r teganau y gwnaethom eu nodi yn y dyddiadur, darparwyd nifer o flancedi a llieiniau i'r plant er mwyn gwneud pebyll yn yr awyr agored. Roeddent wrth eu bodd yn chwarae, a gwnaeth hyn hefyd helpu i gynnig rhywfaint o gysgod ar ddiwrnod poeth. Dywedwyd wrthym fod y teganau newydd wedi'u prynu eleni, yn cynnwys posau, hambyrddau dŵr, peiriant swigod a detholiad o gemau gan gynnwys 'connect four'.
Mae'r gwarchodwr plant wedi darparu nifer o hambyrddau dŵr a phwll i'r plant ei ddefnyddio, gan gynnig gweithgareddau i'w cadw'n oer yn ystod y tywydd poeth.

Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud yn siŵr bod amrywiaeth eang o adnoddau dysgu a chwarae o ansawdd da ar gael i'r plant, a hynny dan do ac yn yr awyr agored.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae gan y gwarchodwr plant bolisïau statudol, ond mae angen cadw gwybodaeth am adolygu a monitro. Mae'r datganiad o ddiben yn darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar y rhieni am y gwasanaeth a gynigir. Mae'r gwarchodwr plant wedi defnyddio adborth gan y rhieni a'r plant i lunio ei hadolygiad o ansawdd y gofal. Mae wedi datblygu cydberthynas dda â'r rhieni ac yn rhoi gwybodaeth iddynt yn rheolaidd.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r gwarchodwr plant yn drefnus a chaiff y ffeiliau eu cadw'n dda.

Mae gan y gwarchodwr plant y polisïau a'r gweithdrefnau gofynnol ar waith i gefnogi'r gwasanaeth. Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos pryd yr adolygwyd y polisïau a'r datganiad o ddiben a byddai'n ddefnyddiol rhoi dyddiad ar yr holl ddogfennaeth. Atgoffwyd y gwarchodwr plant am Gyfraith GDPR 2018 (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data) a'r angen i'w ystyried mewn cysylltiad â'u busnes gwarchod plant.

Mae angen i'r gwarchodwr plant sicrhau bod y gwasanaeth wedi'i seilio ar dystiolaeth, a'i fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r gwarchodwr plant yn ceisio adborth gan y rhieni a'r plant, ond mae angen gwneud rhagor o waith monitro a hunanwerthuso.

Roedd y gwarchodwr plant wedi darparu adolygiad o ansawdd y gofal ar gyfer 2017 ac mae disgwyl iddi lunio un ar gyfer 2018. Anfonwyd holiaduron at y rheini ac mae'r adolygiad yn dweud bod y rhieni yn hapus iawn â safon uchel y gofal roedd eu plant yn ei chael. Roeddent yn falch â'r cyfathrebu manwl bob dydd a'r prydau amrywiol rhagorol, sydd hefyd yn iachus ac yn faethlon. Gofynnwyd i'r plant dynnu lluniau ac ysgrifennu'r hyn roeddent yn eu hoffi ac nad oeddent yn eu hoffi. Roedd y plant yn hoffi'r byrbrydau ar ôl ysgol, gan gynnwys siocled poeth ar ddiwrnodau oer o aeaf. Roeddent yn hoffi'r gweithgareddau crefft ac yn mwynhau cael llawer o anifeiliaid o'u cwmpas. Dywedodd y plant y byddent yn hoffi cael mwy o amser i chwarae ar ôl yr ysgol, cyn i'w rhieni gyrraedd. Roedd yr adolygiad wedi'i gyfyngu i sylwadau'r rhieni a'r plant, a dylai adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn fwy cyffredinol.

Mae'r gwarchodwr plant yn ceisio adborth ar ei hymarfer ei hun, ond dylai fod yn fwy myfyriol.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli adnoddau presennol yn effeithiol.

Mae gan y gwarchodwr plant gymhwyster gofal plant ac mae wedi mynychu cyrsiau hyfforddi statudol. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r gwarchodwr plant wedi diweddaru ei

chymhwyster cymorth cyntaf ac wedi cwblhau cwrs diogelu. Roedd dogfennau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o'r teulu, ac roeddent ar gael ac yn gyfredol.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'r gofynion statudol i gwblhau hyfforddiant ac i sicrhau dogfennaeth Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gyfredol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan y gwarchodwr plant gydberthynas dda â'r rhieni ac yn rhoi gwybodaeth iddynt ar lafar am lesiant a chynnydd eu plant.

Mae'r rhieni wedi nodi eu bod yn hapus â'r gwasanaeth a ddarperir. Rhoddir y cyfle i rieni'r plant iau gael gwybodaeth ysgrifenedig am ddiwrnod eu plentyn. Mae rhieni'r plant sy'n mynychu ar hyn o bryd yn cael gwybodaeth lafar. Gwelsom un rhiant yn cael adborth pan ddaeth i gasglu ei phlentyn, ac roedd yn amlwg bod cydberthynas dda yn bodoli. Dywedwyd wrthym am un plentyn, sy'n bedair ar ddeg erbyn hyn, ac sy'n dal i fwynhau dod i'r gwasanaeth o bryd i'w gilydd. Mae hyn yn dangos yn effeithiol y berthynas a sefydlwyd ac a gynhelir gan y plant a'r rhieni.

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio mewn partneriaeth â'r rheini a cheir cyfathrebu da rhyngddynt.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell y dylai'r gwarchodwr plant ystyried;

- Cynnwys dyddiad ar y datganiad o ddiben a'r polisïau i ddangos pryd y cawsant eu hadolygu;
- cofnodi pan fydd plant yn cyrraedd â marciau arnynt neu anafiadau presennol;
- defnyddio'r adolygiad o ansawdd y gofal i werthuso'r gwasanaeth yn fanylach;
- dylai'r flanced dân gael ei gosod yn unol ag argymhellion y gwasanaeth tân;
- dylid cofnodi'r driliau tân, a hynny mewn ffordd sy'n bodloni'r Swyddog Diogelwch Tân;
- y canllawiau diweddaraf ar ddiogelu data a
- darparu asesiadau risg ysgrifenedig ar gyfer unrhyw deithiau penodol.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o Arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 6 Awst 2018 rhwng 9:40am a 15.15pm.

Gwnaethom y canlynol:

- Gwnaethom arsylwi ar y plant a'r gofal a roddwyd iddynt;
- gwnaethom siarad â'r plant;
- gwnaethom siarad â'r gwarchodwr plant;
- gwnaethom edrych ar rai cofnodion gan gynnwys polisïau, gweithdrefnau, cofnodion y plant a chofrestri, a
- gwnaethom archwilio'r safle ac ansawdd y teganau a'r cyfarpar.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Sonia James** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **10** |
| **Ystod oedran y plant** | **0 i 12 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i ddydd Iau, 8.00am i 5.00pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **30 Medi 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad(au) arolygu** | **6 Awst 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Na** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Na** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Na** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |